# Gulfood, Dubai

PRYD
**19-23 Chwefror 2024**

PRIF SECTORAU
**Bwyd a Diod**




© Llun gan Vangelis Kovu ar Unsplash

## PAM GULFOOD 2024?

**Hoffai Llywodraeth Cymru wahodd eich cwmni i arddangos o dan frand Cymru Wales yn Gulfood, Dubai.**

Gulfood yw'r arddangosfa flynyddol fwyaf yn y byd ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Bydd y 28ain arddangosfa hon yn hanes Gulfood yn parhau i uno cymunedau bwyd a diod ledled y byd. Disgwylir mwy na 4000 o gwmnïau o dros 120 o wledydd a thros 150 o bobl ddylanwadol yn y diwydiant a fydd yn sbarduno tueddiadau newydd gan ddod â'r cwmnïau bwyd a diod at ei gilydd.

## PAM MYND?

Bydd yr ymweliad hwn yn rhoi cyfle ichi arddangos eich cwmni, meithrin cysylltiadau gwerthfawr a datblygu eich allforion yn y Dwyrain Canol.

Drwy gymryd rhan, byddwch yn elwa ar:

- Ffordd gosteffeithiol o ymweld â'r farchnad
- Bod â phresenoldeb naill ai yn y Neuadd Ryngwladol neu'r Neuadd Cynnyrch Llaeth
- Rhwydweithio ac ymgysylltu â busnesau allweddol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y farchnad
- Rhannu profiadau a gwybodaeth â chyfranogwyr eraill
- Cyfle i fynd i ddigwyddiadau rhwydweithio
- Cael eich cynnwys mewn unrhyw ddeunydd marchnata

## Y GOST

Mae gan Bwyd a Diod Cymru stondinau yn y Neuadd Ryngwladol a'r Neuadd Cynnyrch Llaeth. Mae'r gost i arddangos wedi cael cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru – gweler yr opsiynau pecyn isod, yn seiliedig ar stondin 4 metr sgwâr:

**Pecyn A – Arddangos ar y Stondin Lawn:**
**Cost – £4,999.00 (ynghyd â TAW) yn cynnwys:**

- Tocynnau hedfan dwyffordd a 6 noson o lety a brecwast i 2 berson
- Lle penodol ym Mhafiliwn Cymru i arddangos eich cynnyrch
- Paneli graffig sylfaenol a dodrefn stondin
- Cael eich cynnwys yn nhaflen wybodaeth y sioe ac mewn deunyddiau marchnata
- Tocynnau arddangoswyr i'r sioe
- Cymorth ar y safle gan Lywodraeth Cymru a chontractwyr penodol
- **Sylwch fod arddangoswyr yn gyfrifol am anfon eu nwyddau eu hunain**

**Pecyn B – Ymweliad Allforio:**
**Cost £1,150.00 (ynghyd â TAW) yn cynnwys:**

- Tocynnau hedfan dwyffordd a llety a brecwast i 1 person
- Cael eich cynnwys yn nhaflen wybodaeth y sioe ac mewn deunyddiau marchnata
- Tocyn arddangoswr ar gyfer y sioe

## DYDDIAD CAU:

**24 Tachwedd 2023**

Os bydd eich cais yn cael ei gyflwyno ar ôl y dyddiad hwn, gallai ffioedd ychwanegol fod yn berthnasol ar gyfer hediadau a/neu lety.

E-bost ar gyfer ffurflen gais neu ragor o wybodaeth: shirley.mcgilvray@llyw.cymru

WG48499 / © Hawlfraint y Goron 2023 OGL